



9 Mehefin 2021

### **YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I ADRODDIAD AROLYGIAETH CWNSTABLIAETH A GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB EI MAWRHYDI: 'POLICING IN THE PANDEMIC: THE POLICE RESPONSE TO THE CORONAVIRUS PANDEMIC DURING 2020'**

Roedd y pandemig yn ystod 2020 yn ddigwyddiad digynsail ledled y byd ac yng Nghymru ac, wrth gwrs, mae'n dal i fynd rhagddo. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y ffordd yr ymatebodd yr heddlu i her y pandemig y llynedd, ac mae'n cydnabod, yn gywir ddigon, y cydbwysedd anodd y bu'n rhaid i Brif Gwnstabiliaid ei daro er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu, bod swyddogion a staff yn cael eu diogelu, ac y gellid cymryd camau gorfodi cymesur mewn achosion o dorri rheolau cadw pellter cymdeithasol.

Yn wir, mae wedi bod yn gyfnod heriol, ac rwyf wedi cydweithio'n agos â'm dau Brif Gwnstabl drwy gydol cyfnod y pandemig dros y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau bod y dulliau cywir wedi cael eu rhoi ar waith. O adeg gynnar, ymatebodd Heddlu De Cymru drwy sefydlu cyfarfodydd cynllunio wrth gefn mewnol – y bu fy nhîm yn rhan o lawer ohonynt – a bu'r heddlu hefyd yn gweithio'n galed i gyfathrebu'n rheolaidd â'r cyhoedd am reoliadau, canllawiau a gorfodi. Roedd hyn yn cynnwys llawer o gyfleoedd i'r cyhoedd a swyddogion mewnol ymgysylltu'n uniongyrchol a gofyn cwestiynau, drwy ddigwyddiadau Facebook Live gyda'r Prif Gwnstabl, er enghraifft. Mae'r heddlu wedi gweithio'n galed i sicrhau mai'r dull pedwar cam (*four 'E's* yn Saesneg) yw ei safbwynt bob amser ac mae'r cyhoedd wedi gwerthfawrogi hyn ar y cyfan.

Fel yr adroddiad arall diweddar gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi a oedd yn ystyried y ffordd y cafodd gwasanaethau dalfeydd eu darparu yn ystod COVID-19, mae'r adroddiad yn cydnabod yr heriau y mae heddluoedd wedi'u hwynebu yn ystod y pandemig, ynghyd â'r ymrwymiad i weithio'n galed i sicrhau amgylchedd diogel lle y gall gwasanaethau barhau.

Rwyf wedi sicrhau fy mod wedi parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ymatebion i COVID-19 yn ein heddlu drwy gydol y pandemig, gan gynnwys monitro

## Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru  
Police and Crime Commissioner for South Wales



materion a chraffu arnynt yn ffurfiol drwy fforymau fel Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu. Rwyf hefyd wedi sicrhau bod ein gwasanaethau wedi'u comisiynu, y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt, wedi cael eu goruchwyllo. Rwy'n croesawu'r adroddiad ac yn cydnabod bod rhai canfyddiadau ac argymhellion a fydd yn rhoi cymorth pellach i ddiogelu'r cyhoedd a swyddogion a staff yr heddlu.

Mae'r Prif Gwnstabl yn ymateb i gynnwys yr adroddiad fel a ganlyn:

*'Mae rhoi'r ymateb plismona i COVID-19 ar waith wedi bod yn her anhygoel i'r tîm. Mae craffu ac argymhellion mewn byd sy'n newid yn gyson yn fuddiol er mwyn meincnodi ein cynlluniau a deall ble y gellir gwneud gwelliannau. Rydym yn derbyn yr adroddiad ac yn sicrhau y caiff yr argymhellion eu rhoi ar waith yn llawn'.*

Yn unol â sylwadau'r Prif Gwnstabl, rwyf eisoes yn ymwybodol bod cynnydd yn cael ei wneud mewn perthynas â'r argymhellion yn ein heddlu, a byddaf yn parhau i fonitro'r broses o'u rhoi ar waith.

**Y Gwir Anrh Alun Michael**  
**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru**